**Adroddiad ar Uwchgynhadledd Ddeddfwriaethol Cynhadledd Genedlaethol y Deddfwrfeydd Gwladol (NCSL) 2025, Boston**

**Cyrraedd ac Awyrgylch**

Mae cynadleddau'n aml yn edrych yn debyg o'r tu allan: llinynnau gwddf wrth y drws, cwpanau papur o goffi, sgyrsiau brysiog rhwng ystafelloedd sydd i gyd yn edrych yr un fath. Ond roedd Uwchgynhadledd Ddeddfwriaethol yr NCSL yn Boston yn rhywbeth gwahanol. Roedd hi'n ben-blwydd Cynhadledd Genedlaethol y Deddfwrfeydd Gwladol yn 50, ac roedd y raddfa — dros 9,000 o gyfranogwyr cofrestredig, gan gynnwys miloedd o ddeddfwyr — yn ddigon i roi arwyddocâd arbennig iddi.

Roedd Canolfan Gynadledda Boston yn teimlo llai fel neuadd gyfarfod a mwy fel agora dinesig: deddfwyr taleithiol o bob cwr o America, staff gyda chlipfyrddau, arbenigwyr polisi yn gafael mewn pecynnau briffio, ac, eleni, record o 326 o gynrychiolwyr rhyngwladol o fwy nag ugain o wledydd. Am yr ail flwyddyn, roedd gan Gymru le yn eu plith — er mai fi oedd yr unig ddeddfwr o'r Deyrnas Unedig yn bresennol.

Roedd yn amhosibl peidio â sylwi ar y cymysgedd o'r cyffredin a'r anghyffredin. Ar y daith o'm gwesty i'r Ganolfan Gynadledda, cerddais heibio i deuluoedd yn ciwio am deithiau gwylio morfilod yn yr harbwr. Tu mewn i'r ganolfan, roedd y sgwrs ynghylch tariffau, mwynau hanfodol, blockchain, cyfiawnder ieuenctid, a pharhad democratiaeth ei hun.

**Y Cyngor Cynghorol Deddfwriaethol Rhyngwladol**

Agorodd yr Uwchgynhadledd gyda'r International Legislative Advisory Council (ILAC), sef fforwm newydd ar gyfer partneriaid rhyngwladol NCSL. Mae'r cyngor yn dwyn ynghyd gynrychiolwyr o ddeddfwrfeydd ledled y byd, gyda llawer ohonynt yn aelodau cysylltiol NCSL, gan gynnwys taleithiau Canada, seneddau Ewropeaidd, a chynulliadau Affricanaidd, ochr yn ochr â deddfwyr taleithiol yr Unol Daleithiau.

Masnach oedd prif bwnc y drafodaeth gynnar. Rhoddodd cynrychiolydd o ddirprwyaeth yr Undeb Ewropeaidd yn Washington grynodeb i ni ar fframwaith masnach newydd yr Unol Daleithiau a'r UE, gyda'i gymysgfa anesmwyth o reoleiddio digidol, tariffau, a chadwyni cyflenwi ar gyfer mwynau hanfodol. Disgrifiodd deddfwyr o Louisiana eu cysylltiadau cynyddol ag Iwerddon — yn ein hatgoffa bod globaleiddio yn aml yn glytwaith o waith partneriaeth rhwng seneddau, nid rhywbeth sydd yn digwydd drwy lywodraethau cenedlaethol yn unig.

Siaradodd cydweithwyr o Ghana yn onest am risgiau goruchafiaeth weithredol mewn democratiaethau ifanc, a gwerth dod i gysylltiad ag arferion gorau deddfwriaethol. Roedd eu pwynt yn un syml: ni all ddemocratiaeth oroesi heb ddeddfwrfeydd sydd â'r gallu a'r hyder i herio llywodraethau.

Yn fy ymyrraeth fy hun, cynigiais y dylai NCSL ystyried cynnull fforwm byd-eang ar gyfer deddfwrfeydd datganoledig ac is-genedlaethol. Er bod gan seneddau cenedlaethol yr

Undeb Rhyngseneddol, ac mae Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad yn cynnwys deddfwrfeydd rhanbarthol a datganoledig ymhlith ei haelodau, nid oes corff gwirioneddol fyd-eang ar gyfer yr haen hon o lywodraethu. Nid yw deddfwrfeydd fel y Senedd yng Nghymru, Cynulliad Cenedlaethol Quebec neu Gynulliad Deddfwriaethol Alberta yn rhai sofran, ond eto, nhw sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r penderfyniadau sy'n siapio bywydau beunyddiol eu dinasyddion — iechyd, addysg, trafnidiaeth, yr amgylchedd. Maen nhw'n haeddu llais byd-eang eu hunain. Denodd y syniad ddiddordeb o amgylch y bwrdd — yn ein hatgoffa bod byd y seneddau yn fwy, ac yn fwy amrywiol, nag y mae map gwledydd y byd yn awgrymu.

Roedd awyrgylch yr ystafell yn un o undod: boed yn Accra, Alberta neu Rydaman, mae'r problemau sy'n ein hwynebu — newid hinsawdd, tarfu digidol, cadernid economaidd — yn rhai a rennir, a gellir dod o hyd i'r atebion yn haws pan fydd deddfwrfeydd yn dysgu oddi wrth ei gilydd.

**Cyfarfod Llawn Agoriadol: Cysgod yn Casglu**

Fore Llun dechreuodd yr Uwchgynhadledd yn ffurfiol. Llwyfannwyd y Cyfarfod Llawn Agoriadol gyda holl theatr gwleidyddiaeth America — cerddoriaeth, baneri, galw allan enwau’r taleithiau a’r cenhedloedd. Ond roedd cysgod galar dros y cwbl. Safodd y cynrychiolwyr mewn distawrwydd i anrhydeddu Melissa Hortman, Llefarydd Tŷ Minnesota, a lofruddiwyd yn gynharach yn yr haf ochr yn ochr â'i gŵr, a Seneddwr John Hoffman, a anafwyd yn ddifrifol yn yr un ymosodiad.

Roedd y teyrngedau a ddilynodd yn amrwd ac yn deimladwy. Siaradodd cydweithwyr am foesgarwch a dewrder Hortman, ei phwyslais ar barch ar draws llinellau pleidiol, a fframiwyd ei marwolaeth mewn ffordd i’n hatgoffa nad rhywbeth haniaethol yw democratiaeth, ond ymdrech ddynol a gyflawnir gan ddynion a menywod sydd weithiau'n talu'r pris eithaf.

Ymgymerodd Robin Vos, Llefarydd Cynulliad Wisconsin, a'r darlledwr Michael Smerconish â’r thema hwn mewn sgwrs: y drafodaeth yn dod yn fwyfwy cras, rôl y cyfryngau sydd wedi'u polareiddio, y trais sy'n treiddio i fywyd gwleidyddol. Roedd eu neges yn ddi-flewyn-ar-dafod: mae deddfwrfeydd, yn enwedig ar lefel y dalaith, ymhlith y llefydd olaf yn America lle mae pobl yn dal i weithio ar draws rhaniadau a ffiniau. Mae amddiffyn y gofod hwnnw ynddo'i hun yn weithred o arweinyddiaeth.

Yna daeth Gabby Giffords i'r llwyfan. Siaradodd y cyn-Gyngreswraig, a gafodd ei saethu yn 2011 ac sydd yn dal i ddioddef effeithiau corfforol yr ymosodiad hwnnw, yn betrusgar ond yn bwerus. "Fydda i byth yn ildio," meddai hi. "A pheidiwch chi chwaith. Rhaid ymdrechu am fyd gwell." Cododd pawb yn y neuadd i'w traed i’w cymeradwyo, rhywbeth a oedd yn teimlo'n fwy fel adduned nag fel gweithred o gymeradwyaeth.

I mi, crisialwyd dau wirionedd yn y foment honno. Yn gyntaf, natur ryfeddol yr hyn yr oeddem yn ei weld: y gynulleidfa fwyaf o ddeddfwyr Americanaidd yn hanes y genedl, tystiolaeth o fywiogrwydd parhaol cyfnewid democrataidd. Yn ail, natur brys y sefyllfa o ran amddiffyn ein sefydliadau ein hunain yng Nghymru — lle mae moesgarwch, gonestrwydd a gwydnwch yr un mor hanfodol os yw democratiaeth am barhau.

**Democratiaeth a “The Mingle Project"**

Dychwelodd Smerconish i’r llwyfan mewn sesiwn ddiweddarach dan faner The Mingle Project. Ei thema oedd erydu cyfalaf cymdeithasol: nid yw Americanwyr bellach yn bowlio mewn cynghreiriau, yn ymuno â chlybiau dinesig, nac hyd yn oed yn mynychu digwyddiadau lleol yn yr un niferoedd. Dechreuodd y dirywiad ar ôl Rhyfel Fietnam, cyflymodd gyda'r rhyngrwyd yng nghanol y 1990au, a gostyngodd yn serth gydag oes y ffonau clyfar ar ôl 2012.

Y canlyniad yw cymdeithas sy’n "hunan-ddidoli": y rhaniad enwog rhwng y “siroedd Cracker Barrel" a’r “siroedd Whole Foods", lle mae ffordd o fyw a gwleidyddiaeth yn cyd-fynd mor agos fel bod llai a llai o Americanwyr yn dod ar draws pobl sy'n wahanol iddyn nhw eu hunain. Mae democratiaeth yn dibynnu llai ar gyfansoddiadau ffurfiol nag ar gymdogion yn gweld ei gilydd — pan fydd hynny'n dod i ben, mae gwleidyddiaeth yn mynd yn frau. Mae'r cyfryngau cenedlaethol yn elwa o ddicter, tra bod y cyfryngau lleol — y glud a fu unwaith yn glynu bywyd dinesig at ei gilydd — wedi gwywo.

Roedd y datrysiadau yn fwriadol gymedrol ond eto'n goncrit: ailadeiladu lleoliadau “trydydd gofod" fel llyfrgelloedd a neuaddau ysgol; adfywio gwasanaeth dinesig; annog gweithio hybrid fel y gall mentora a chyswllt traws-gefndir ddigwydd eto; defnyddio technoleg i berswadio pobl i ddod all-lein yn hytrach na'u maglu ar-lein. "Ysgolion," dywedodd, yn ein hatgoffa, "yw'r man cyfarfod cyffredinol olaf."

Roedd y pwynt yn ddigon i’ch sobri. Mae iechyd democratiaeth yn dibynnu ar rwydweithiau lleol dwys sydd nawr wedi teneuo'n sylweddol. Pan fydd cymdogion yn troi’n ddieithriaid, mae sefydliadau'n dilyn.

**Anterliwt Bleidiol:  Y Llywodraethwr Pritzker**

Dros ginio, ymunais â digwyddiad cawcws ar gyfer deddfwyr Democrataidd. Cyflwynodd y Llywodraethwr J.B. Pritzker o Illinois amddiffyniad grymus o ryddid sifil, gan gyhuddo gweinyddiaeth Trump o danseilio habeas corpus trwy dactegau gorfodi mewnfudo. Soniodd am blant sy'n cael eu cadw yn y ddalfa er mwyn rheoli’r rhieni, am y traddodiad cyfansoddiadol Americanaidd sy'n ymestyn yn ôl i'r Magna Carta, ac am y perygl o gamgymryd tarfu am fedr.

Roedd y rhethreg yn danllyd a’r awyrgylch yn ymosodol — cyferbyniad llwyr â naws dwybleidiol y cyfarfod llawn. Ac eto, roedd yr un thema o dan yr wyneb: bod

democratiaeth yn seiliedig ar y drefn briodol, cyfyngu ar bŵer y weithrediaeth, a chymhwysedd sylfaenol y llywodraeth i lywodraethu.

**Trafferth mewn Technoleg**

**Deallusrwydd Artiffisial: Troedio'n Ofalus**

Roedd pragmatiaeth y sesiwn ar reoleiddio AI yn drawiadol. Mae Utah wedi dewis peidio â rheoleiddio datblygiad modelau — gan gydnabod cymeriad byd-eang, di-fin y datblygiad — ond i ganolbwyntio ar gymwysiadau sy'n effeithio ar y cyhoedd. Rhaid hysbysu dinasyddion sy'n rhyngweithio â deallusrwydd artiffisial mewn cyd-destunau gofal iechyd neu gyllid; mae cwmnïau sy'n defnyddio deallusrwydd artiffisial mewn meysydd risg uchel yn wynebu dyletswyddau newydd.

Mae Virginia wedi deddfu ar gyfer asesiadau effaith algorithmig, yn debyg i asesiadau effaith amgylcheddol ond ar gyfer rhagfarn a gwahaniaethu. Mae Arkansas wedi mynnu bod angen "y bod dynol yn y ddolen", neu "*human in the loop*" ar gyfer penderfyniadau'r llywodraeth: ni all unrhyw algorithm wneud y penderfyniadau terfynol. Yn y cyfamser, mae Massachusetts wedi buddsoddi $100 miliwn mewn canolfan AI, gan gysylltu'r dechnoleg â chryfderau biotechnoleg y dalaith.

Y thema oedd un o alluogi gofalus: deddfu'n gul, peilota'n eang, a pheidio byth ag anghofio bod "gwneud dim byd hefyd yn ddewis".

**Deallusrwydd Artiffisial o fewn y Ddeddfwrfa**

Datgelodd panel arall sut mae staff deddfwriaethol eu hunain eisoes yn defnyddio AI cynhyrchiol i ddrafftio, crynhoi, cyfieithu a chodio. Dangosodd staff TG Minnesota sut y gall timau bach gynyddu eu cynhyrchiant; dangosodd Talaith Washington bwysigrwydd polisïau defnydd derbyniol cyn i arferion heb eu hawdurdodi amlhau. Daeth cymalau caffael a llywodraethu data i'r wyneb fel y sylfeini llai cyfareddol ond hanfodol.

Y trosiad a ailadroddwyd oedd "offer peirianyddol": peryglus os cânt eu camddefnyddio, ond trawsnewidiol pan gânt eu trin yn fedrus.

**Plant, Sgriniau, a'r Argyfwng Iechyd Cyhoeddus**

O'r sesiynau panel ar dechnoleg, efallai mai'r un mwyaf taer oedd honno yn canolbwyntio ar bobl ifanc. Llwm oedd y darlun a roddwyd gan ymchwilwyr ac eiriolwyr ieuenctid: plentyndod wedi'i dadleoli o'r meysydd chwarae i'r sgrin ffôn, gyda chynnydd mesuradwy mewn iselder a phryder, yn enwedig ymhlith merched. Roedd yr ystadegau'n ddifrifol — mae Snapchat yn adrodd tua 10,000 o achosion o flacmel rhywiol bob mis; mae un o bob tair merch yn eu harddegau yn dweud bod Instagram yn gwaethygu eu delwedd corff; mae un o bob wyth o blant yn eu harddegau ifanc yn adrodd eu bod wedi profi negeseuon rhywiol digroeso ar Instagram yn yr wythnos ddiwethaf. Mae plant yn eu harddegau, ar gyfartaledd, yn treulio pum awr y dydd ar

gyfryngau cymdeithasol, amser a ddefnyddiwyd yn flaenorol ar gyfer cysgu, chwarae, a chyfeillgarwch wyneb yn wyneb.

Roedd yr alwad am gyfrifoldeb o ran dyluniad y cynnyrch, nid grym ewyllys rhieni: preifatrwydd yn ddiofyn, codau dylunio sy'n briodol i’r oedran, gwaharddiadau ar hysbysebu wedi'i dargedu at blant dan oed, ac ysgolion di-ffôn. Roedd yn drawiadol clywed cynrychiolwyr y diwydiant yn cydnabod y broblem ac yn cymeradwyo, yn ochelgar, rai o'r mesurau.

I Gymru, mae'r adleisiau'n glir: ysgolion fel llochesau, rheoleiddio o fewn y dyluniad, a’r llais ieuenctid yn elfen anhepgor wrth lunio polisïau.

**Datblygu Economaidd: Gwersi o Hanes**

Roedd y sesiwn ar ddatblygiad economaidd yr Unol Daleithiau yn olrhain llinell o’r Gamlas Erie i'r iPhone. Y byrdwn oedd mai sylfaen cryfder America erioed oedd y gymysgedd o fuddsoddiad cyhoeddus, seilwaith, a diffyndollaeth ddetholus. Arweiniodd contractau amddiffyn ffederal at ostyngiad mewn prisiau microsglodion o $32 i $1.25 mewn un degawd, gan alluogi chwyldro'r cyfrifiaduron personol. Mae'r iPhone heddiw yn fwndel o dechnolegau — GPS, sgriniau cyffwrdd, y rhyngrwyd — i gyd wedi'u symbyli gan ymchwil gyhoeddus.

Roedd y tariffau yn y 19eg ganrif yn amddiffyn diwydiannau ifanc nes eu bod yn gallu cystadlu. Creodd contractau amddiffyn ffederal yn yr 20fed ganrif y galw a ysgogodd arloesedd. Mae'r iPhone heddiw yn fwndel o dechnolegau — GPS, sgriniau cyffwrdd, y rhyngrwyd — i gyd wedi'u symbyli gan ymchwil gyhoeddus.

Roedd y diagnosis o wendid presennol yn un miniog: tanfuddsoddiad mewn ymchwil a datblygiad, allanoli gwaith, diffyg masnach o bron i driliwn o ddoleri, ac esgyniad Tsieina trwy bolisi diwydiannol parhaus. Y presgripsiwn: dewis sectorau mewn ffordd strategol, buddsoddi ar raddfa fawr, creu galw gwarantedig drwy gaffael cyhoeddus, ac ailhyfforddi'r gweithlu.

Ymyrrais i godi persbectif gwahanol. Er bod y ffocws ar nwyddau yn ddealladwy, mae America yn cynnal gormodedd sylweddol mewn gwasanaethau — eiddo deallusol, gwasanaethau digidol, cyllid — yr hyn y mae'r economegydd Ricardo Hausmann yn ei alw'n "fater tywyll" sy'n aml yn absennol o’r ystadegau masnach traddodiadol. Y risg, awgrymais, yw y byddai diffyndollaeth ymosodol mewn nwyddau yn gallu sbarduno dial o fewn yr union sectorau gwasanaeth hynny lle mae gan yr Unol Daleithiau a'i chynghreiriaid eu manteision cystadleuol mwyaf. Cydnabu'r drafodaeth a ddilynodd y cymhlethdod hwn: mae cydbwysedd masnach yn cwmpasu nid yn unig dur a silicon, ond meddalwedd, cyllid, a symud syniadau. Wrth ganolbwyntio mor fanwl ar nwyddau diriaethol, a oeddem yn peryglu ein cryfderau diriaethol?

**Arloesedd ac Iechyd Cymunedol**

Mewn gweithdy ar arloesedd ym maes iechyd, gwrthdarodd y personol a'r gwleidyddol. Siaradodd gweinidog hoyw Du o Boston am y stigma sy'n dal i fod ynghlwm wrth atal HIV, ac am ddod o hyd i gadarnhad a chefnogaeth yn Fenway Health, clinig cymunedol. Disgrifiodd cyn-seneddwr oroesiad ei efeilliaid a oedd wedi'u geni'n gynnar, yn pwyso prin hanner cilogram yr un, diolch i therapïau sy'n dal i fod yn rhan o dreialon clinigol.

Y wers oedd nad moleciwlau yn unig yw arloesi ond modelau: negeswyr dibynadwy, gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a'r gallu diwylliannol i gyrraedd y rhai sydd fwyaf mewn angen. Cafodd buddsoddiad Massachusetts o biliwn o ddoleri ar gyfer y gwyddorau bywyd ei gyflwyno fel enghraifft o sut y gall polisi'r dalaith adeiladu nid yn unig diwydiant ond ecosystem iechyd cleifion.

Roedd yn ein hatgoffa bod gwerth yn golygu ymddiriedaeth, mynediad ac urddas dynol, nid dim ond cost-effeithiolrwydd.

**Cyfiawnder Ieuenctid: Negeswyr Credadwy**

Un o'r sesiynau mwyaf pwerus oedd honno ar gyfiawnder ieuenctid. Ailystyriwyd ymgyrch 'Operation Ceasefire' dinas Boston: nid oedd ei lwyddiant yn deillio o ddamcaniaethau mawreddog ond o'i penodoldeb. Rhoddwyd i grŵp bach o bobl ifanc, a ystyriwyd i fod yn rhai risg uchel iawn, cosbau cyflym ond hefyd dewisiadau amgen go iawn, wedi'u cyflwyno gan bobl yr oeddent yn ymddiried ynddynt — "negeswyr credadwy" a oedd wedi cerdded llwybrau tebyg eu hunain. Y neges: mae cael ffocws penodol yn gweithio.

Dangosodd rhaglen 'Safety Net' dinas Cambridge sut y gallai cyfuno cyllidebau ac arbenigedd ar draws ysgolion, yr heddlu a gwasanaethau cymdeithasol gau bylchau cyfarwydd. Cyflwynwyd cyfiawnder adferol nid fel syniad ond fel rhywbeth mesuradwy: mae dioddefwyr yn nodi boddhad uwch; mae cyfraddau aildroseddu yn gostwng.

Eglurwyd mai pwrpas Deddf Amddiffyn Holi Plant Maryland, sy'n gwneud ymgynghoriad â chyfreithiwr yn ofynnol cyn cwestiynu plant dan oed, oedd amddiffyn yn erbyn cyfaddefiadau ffug, nid goddefgarwch. Mae ymennydd person ifanc yn prosesu risg a gwobr yn wahanol; byddan nhw'n dweud unrhyw beth i allu gadael yr ystafell. Roedd hanes hir Kentucky o ddiwygio — o uno'r cod ieuenctid i ymgorffori proses werthuso mewn statud — yn tanlinellu pwysigrwydd mesur, addasu a dyfalbarhau.

Roedd y wers yn un triphlyg: recriwtio a chefnogi negeswyr credadwy; dylunio ymyriadau o amgylch carfan fach, risg uchel; a normaleiddio llwybrau adferol. Roedd y pwyslais bob amser ar ymddiriedaeth, ffocws a thystiolaeth.

**Her Newid**

Roedd sesiwn lawn Shankar Vedantam ar seicoleg newid yn ddifyr ond hefyd yn anesmwythol. Pam mae syniadau da yn methu? Oherwydd bod bodau dynol yn glynu

wrth y status quo, yn gorbrisio'r hyn maen nhw wedi'i adeiladu (sef yr effaith IKEA), ac yn syrthio i mewn i fagl costau suddedig.

Roedd ei datrysiadau yn ymarferol: gwneud yn siŵr mai’r opsiwn gwell yw’r un diofyn; gwobrwyo symudiadau bach tuag at newid; ac, y mwyaf clyfar o'r rhain, gofyn i amheuwyr ddysgu'r arfer newydd i eraill — mae'r weithred o ddysgu yn golygu eu bod yn argyhoeddi eu hunain. Weithiau, yr unig ffordd yw gwneud newid yn anochel — cafodd darn arian doler Canada (y "loonie") ei gyflwyno yn llwyddiannus oherwydd bod y ddoler papur wedi'i dynnu'n ôl yn llwyr, tra bod yr Unol Daleithiau wedi cadw'r ddau opsiwn ac wedi gweld ychydig iawn o newid. Siaradodd am gôl-geidwaid yn neidio i'r chwith neu'r dde i osgoi cael eu beio, hyd yn oed pan sefyll yn llonydd yw’r dewis cywir, ac am yr angen i "fyw yn ôl" — hynny yw, neilltuo eich amser i’ch nodau deng mlynedd yn hytrach na difyrrwch heddiw.

Roedd yn sesiwn a oedd yn ymwneud yn fwy â phobl na gwleidyddiaeth, ond roedd y goblygiadau ar gyfer dylunio polisïau yng Nghymru yn amlwg: rhaid adeiladu diwygiadau sy'n weladwy, yn anghildroadwy, ac yn hawdd eu gweithredu; gwobrwyo'r rhai sy'n symud yn gyntaf; a gofyn i bobl ddysgu'r dull newydd i eraill — gan eu gwneud yn eiriolwyr trwy'r weithred o esbonio.

**Blockchain a Hunaniaeth Ddigidol**

Diolch byth, roedd y sesiwn blockchain yn rhydd o unrhyw *hype*. Eglurwyd llwyddiant Estonia: yr asgwrn cefn go iawn yw X-Road, sef system gyfnewid data ddiogel; dim ond haen archwilio yw blockchain. Mae DMV California eisoes wedi symud miliynau o deitlau cerbydau i gofrestrfa blockchain, gan leihau twyll a gwaith papur. Mae siroedd yn treialu defnyddio blockchain ar gyfer cofnodion hanfodol, mewn prifysgolion ar gyfer trawsgrifiadau, mewn cadwyni cyflenwi ar gyfer tarddiad bwyd.

Roedd y drafodaeth fwyaf trawiadol am hunaniaeth ddigidol. Mewn oes o ffugiadau dwfn, nid "pwy ydw i'n ymddiried ynddo?" yw’r cwestiwn bellach, ond "pwy alla i wirio?". Roedd y consensws yn pwyntio tuag at hunaniaeth a gymeradwywyd gan y wladwriaeth ond a reolir gan ddinasyddion, y gellir ei datgelu'n ddetholus — y gallu i brofi eich bod dros ddeunaw oed heb ddatgelu eich cyfeiriad. Dangosodd arbrofion Utah gyda thrwyddedau llai pwysig — cardiau trin bwyd, trwyddedau gyrru oddi ar y ffordd — fan cychwyn diogel.

Y wers: peidiwch â defnyddio blockchain ar gyfer popeth. Adeiladwch reiliau data rhyngweithredol yn gyntaf, ychwanegwch haenau archwilio na ellir eu newid lle bo'n ddefnyddiol, a symudwch gam wrth gam tuag at hunaniaeth ddigidol sy'n diogelu preifatrwydd.

**Arweinyddiaeth ar gyfer y Gêm Anfeidrol**

Crisialodd y seminar olaf syniad Simon Sinek o'r "gêm anfeidrol". Dadleuwyd nad yw gwleidyddiaeth yn ymwneud â buddugoliaeth barhaol ond parhau, addasu a gwella. Mae’r tri gofyniad yn: Achos Cyfiawn sy'n werth degawdau o ymdrech, Cystadleuydd Teilwng lle mae ei gryfderau'n datgelu eich gwendidau, a Hyblygrwydd Dirfodol — y parodrwydd i ailddyfeisio cyn i ddirywiad ddechrau.

Roedd yn rhyddhaol clywed gwleidyddiaeth yn cael ei fframio nid fel cystadleuaeth i'w hennill ond fel gêm i'w chynnal. I genedl fach fel Cymru, mae'r mewnwelediad yn amlwg: mae goroesi, addasu, a gwelliant cyson yn fuddugoliaethau ynddynt eu hunain. *R'yn Ni Yma O Hyd!*

**Casgliad: Gwersyll Cychwyn, Nid Copa**

‘Summit’ oedd y gair a ddefnyddiwyd yn Saesneg ar gyfer y gynhadledd yn Boston. Roedd hi’n teimlo, mewn gwirionedd, yn debycach i wersyll cychwyn na chopa: lle i gasglu syniadau, i gymharu mapiau â mynyddwyr eraill, ac i ddewis llwybr.

Drwy gydol yr wythnos, ailadroddwyd y themâu: mae democratiaeth yn fregus ond yn wydn; ymddiriedaeth yw'r wir seilwaith; rhaid dofi technoleg ond nid ei hofni; a mesurir arweinyddiaeth nid yn ôl buddugoliaethau tymor byr ond yn ôl dygnwch.

I Gymru, roedd y gwerth yn glir: gweledEdd o fewn rhwydwaith rhyngwladol o ddeddfwrfeydd, a mewnwelediadau y gallwn eu haddasu i'n graddfa a'n hamgylchiadau ein hunain. Ond nid cyfoeth y neuadd gynadledda yw’r prawf, ond yr hyn sy'n digwydd wedyn — a yw'r gwersi'n goroesi ar ôl dychwelyd i wleidyddiaeth ddyddiol.

Gadewais Boston gyda'r teimlad bod heriau democratiaeth yn rhai a rennir, ac felly rhaid hefyd rhannu’r atebion. Ni sydd yn dringo’r mynydd, ond mae mwy o gwmni ar y llethrau nag yr ydym ni weithiau yn ei ddychmygu.